ATODLEN

Rheolau ac egwyddorion ynglŷn â gweld ystadegau cyn eu rhyddhau

### Unigolion y gellir rhoi caniatâd iddynt weld ystadegau cyn eu rhyddhau, ac o dan ba amgylchiadau

**1.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, caiff y person cyfrifol(**1**) roi caniatâd i ystadegau gael eu gweld cyn eu rhyddhau dim ond i'r graddau y mae o'r farn ei bod yn angenrheidiol rhoi caniatâd i unigolyn adnabyddadwy penodol eu gweld er mwyn—

(a) galluogi unigolyn a grybwyllir yn is-baragraff (3) i gyflwyno sylwadau cyhoeddus ar yr ystadegau ar sail dealltwriaeth gywir ohonynt;

(b) galluogi unigolyn a grybwyllir yn is-baragraff (3) i bwyso a mesur goblygiadau'r ystadegau ar gyfer polisïau a rhaglenni Gweinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadau cyhoeddus a gyflwynir gan unigolyn a grybwyllir yn is-baragraff (3) am y polisïau a'r rhaglenni hynny adeg cyhoeddi'r ystadegau neu ar ôl eu cyhoeddi yn adlewyrchu dealltwriaeth gywir ohonynt;

(c) sicrhau na fydd unigolyn a grybwyllir yn is-baragraff (3) yn dibynnu ar ystadegau eraill sydd ar gael iddo, am yr un pwnc â'r ystadegau y gellir caniatáu iddynt gael eu gweld cyn eu rhyddhau ar draul y canlynol–

(i) arfer unrhyw rai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru, neu

(ii) unrhyw sylw cyhoeddus a gyflwynir gan unigolyn a grybwyllir yn is-baragraff (3) ynglŷn â'r ystadegau eraill hynny,

heb iddo gael gwybod am yr ystadegau y gellir caniatáu iddynt gael eu gweld cyn eu rhyddhau;

(ch) sicrhau, pan fo cyhoeddiad neu ddeunydd arall yn cael ei baratoi gan neu ar ran unrhyw gorff cyhoeddus, swyddfa gyhoeddus neu ddeiliad swydd o'r fath i'w gyhoeddi yr un pryd neu yn fuan ar ôl yr ystadegau y gellir caniatáu iddynt gael eu gweld cyn eu rhyddhau, fod unrhyw ystadegau a gynhwysir yn y cyhoeddiad neu'r deunydd hwnnw yn gywir neu fod y cyhoeddiad neu'r deunydd wedi'i fwydo'n briodol fel arall gan yr ystadegau y gellir caniatáu iddynt gael eu gweld cyn eu rhyddhau;

(d) galluogi un o'r canlynol i gyflwyno sylwadau cyhoeddus mewn cysylltiad â chyhoeddi'r ystadegau ar sail dealltwriaeth gywir ohonynt–

(i) un o Weinidogion y Goron;

(ii) pennaeth adran o lywodraeth y Deyrnas Unedig;

(iii) aelod o Weithrediaeth yr Alban;

(iv) un o Is-weinidogion yr Alban;

(v) un o Weinidogion Gogledd Iwerddon, gan gynnwys Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon;

(vi) aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon a benodwyd yn Is-weinidog o dan adran 19 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998(**2**);

(vii) unigolyn sy'n cynghori unrhyw rai o'r rhai a grybwyllir yn is-baragraffau (i) i (vi).

(**1**) Diffinnir "y person cyfrifol" ("*the person responsible*") yn adran 67 o'r Ddeddf.
(**2**) 1998 p. 47.

(dd) galluogi corff cyhoeddus, swyddfa gyhoeddus neu ddeiliad swydd o'r fath, y mae'r ystadegau yn berthnasol i'w swyddogaethau, i gyflwyno sylwadau cyhoeddus ar yr ystadegau ar sail dealltwriaeth gywir ohonynt;

(e) galluogi corff sy'n cynrychioli corff cyhoeddus, swyddfa gyhoeddus neu ddeiliad swydd o'r fath y mae'r ystadegau yn berthnasol i'w swyddogaethau i gyflwyno sylwadau cyhoeddus ar yr ystadegau ar sail dealltwriaeth gywir ohonynt;

(f) cyflawni unrhyw ddiben arall os yw'r person cyfrifol o'r farn bod budd y cyhoedd yn cael ei ateb gryn dipyn yn well drwy roi caniatâd i weld yr ystadegau cyn eu rhyddhau (yn hytrach na thrwy beidio â'i roi) at y diben hwnnw gan roi sylw i unrhyw niwed y byddai gweld yr ystadegau cyn eu rhyddhau yn debyg o'i beri i'r canlynol—

(i) ymddiriedaeth y cyhoedd yng ngonestrwydd ystadegau swyddogol yn gyffredinol; neu

(ii) ymddiriedaeth y cyhoedd yng ngonestrwydd ystadegau swyddogol penodol.

(2) Dim ond os yw'n fodlon bod trefniadau wedi'u gwneud i roi gwybod am yr wybodaeth ganlynol i unigolyn y mae'n rhoi caniatâd iddo weld ystadegau cyn eu rhyddhau y caiff y person cyfrifol roi caniatâd i weld ystadegau cyn eu rhyddhau—

(a) ar ba sail yn is-baragraff (1) y rhoddir caniatâd; a

(b) gofynion paragraff 5.

(3) Yr unigolion a grybwyllir yn yr is-baragraff hwn yw—

(a) un o Weinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**);

(b) Prif Weinidog Cymru;

(c) Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

(ch) un o Ddirprwy Weinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(d) unigolyn sy'n cynghori unrhyw rai o'r rhai a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (ch).

(**3**) 2006 p. 32.